COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 242

Amseru: Arferol

Teitl: Cwmni Dylunio ar gyfer Cynllun Heddlu a Throsedd newydd

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol: Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i bob Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) gynhyrchu Cynllun Heddlu a Throsedd o fewn y flwyddyn ariannol gyntaf ar ôl iddynt gael eu hethol. Mae'r Cynllun Heddlu a Throsedd, yn gosod y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer yr Heddlu lleol, ac yn cael ei ddatblygu gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid lleol.
Mae'r Cynllun Heddlu a Throsedd i'w gyhoeddi ar-lein yn ogystal â bod ar gael ar ffurf print. Gwahoddodd y Swyddfa gwmnïau lleol sydd â'r arbenigedd perthnasol, sy'n gallu darparu'r pecyn cyflawn ar gyfer cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys Newydd, i ddarparu dyfynbris ar gyfer y canlynol:

- Dylunio dogfen Cynllun yr Heddlu a Throsedd ar gyfer print a'r we (fersiwn Gymraeg a Saesneg (tua 7000 o eiriau)
- Dylunio fersiwn Easy Read o Gynllun yr Heddlu a Throsedd ar gyfer print a'r we (fersiynau Cymraeg a Saesneg)
- Creu animeiddiadau fideo gyda BSL a fydd yn dod â'r Cynllun Heddlu a Throsedd newydd yn fyw trwy gyfleu ei negeseuon a'i flaenoriaethau allweddol, mewn dull creadigol, gweledol, a fydd yn helpu i hyrwyddo gwaith y CHTh a'r Swyddfa
- Cyflenwi asedau graffigol o waith dylunio'r Cynllun Heddlu a Throsedd y gellir eu defnyddio mewn dogfennau swyddogol yn y dyfodol

Cyflwynwyd dyfynbrisiau gan 3 chwmni; Optimwm Ltd, Savage & Grey Designs a BlueEgg Design Ltd, gyda dyfynbrisiau yn amrywio o £ 9,165 i £ 22,000. Cafodd y tri dyfynbris eu hystyried a'u gwerthuso gan y Pennaeth Staff, Ymgynghorydd Polisi ac Ymgysylltu, a'r Ymgynghorydd Polisi a Sicrwydd, gyda phwysiad cyffredinol y broses werthuso yn seiliedig ar; Ansawdd (40%), Profiad (30%) a Chost (30%). Roedd pob un yn cytuno bod cynnig Savage & Grey Design yn cynnig y gwerth gorau am ein gofynion.

Argymhelliad: Bod y contract ar gyfer y gwaith yn cael ei ddyfarnu i Savage & Grey Designs ar gost o £ 12,890.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: **Dyddiad: 17/11/21**